CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain EBRILL 2026.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Ms N Dafydd, Mrs B Jones, G Jones, J E Lewis, D T Roberts, Mrs L Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng J Evans, W R Parry.

Cyng. D T Roberts oedd yn y gadair.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng. Ms N Dafydd a R R Roberts (Neuadd Goffa)

CAEL COFNODION 17eg MAWRTH 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilo Cyng. G Jones.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Llongyfarchiadau a diolch i Cyng. N Dafydd am gerdded Llwybr Arfordir yn ddiweddar i hel arian i RASASC Gogledd Cymru.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. FPL/2023/265. Cais llawn ar gyfer codi 3 Uned Glampo, un cwt Feiciau, un cwt Bin, un cwt Gwasanaeth, man Parcio newydd ynghyd a gwaith cysylltiedig yn:-
Tawelfryn, Tynlon.
Gwrthodwyd. Dim yn addas i`r Gymuned.
Derbyn gan y Cyngor.

3. FPL/2025/175. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn cynnwys trosi adeilad allanol i fod yn rhan o`r annedd ynghyd a dymchwel a codi garej ar wahan a chadw`r estyniad i`r cwrtil yn:-
Hen Siop, Llandrygarn.
Caniatad.
Y Cyngor yn derbyn a wedi cefnogi.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Y Cyngor yn derbyn yn unfrydol i gefnogi polisi gan y Cyngor Sir i fabwysiadu trigolion sydd salwch terfynol. Trwy rhyddhad Treth Cyngor 100% i aelwydydd, lle mae unigolyn sy`n dioddef salwch terfynol yn byw. Mae yn fenter gyntaf yn Gymru ac yn dechrau 1af Ebrill 2026.
Ceir gwybodaeth pellach gan Steffan Davies, Uned Gyfarthrebu 01248 752128.

5. Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd - Christian Branch.
Balchder yn ein Cymuned.
Ceir dyraniad cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned. Y Gronfa yn gefnogol i welliannau cyfalaf gweladawy i leoedd a mannau Cymunedol er bydd y cyhoedd.
Cyngor Bodffordd i dderbyn £9,241.92.
Trwy gynnig Cyng. Ms N Dafydd, eilio Cyng. G Jones gyda pawb yn cefnogi derbyn.
Cael Golau Fflachio cyflymder yn Pentref Bodffordd a Llynfaes.
Y Clerc wedi anfon Atodiad A i gadarnhau fod y Cyngor yn bwriadu derbyn y dyraniad. (11ed Mai 26)
Mae Cyng. Ms N Dafydd yn cymryd y mater i fynnu cael prisiau ac ymlaen a cyflwyno ffurflen gais lawn Atodiad B (30ain Mehefin 26) Gyda cwblhau`r holl wariant a gwaith erbyn (31ain Hydref 26) Wedyn bydd rhaid cyflwyno`r ffurflen hawlio a`r dogfennau ategol perthnasol (30ain Tachwedd 26)

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Aelodaeth 2026 / 2027 £213.00.
Pasiwyd i dderbyn a talu yr aelodaeth Cynnig Cyng. Ms N Dafydd, eilio Cyng. R R Roberts.

7. Un Llais Cymru - Wendi Patience.
Mae Hyfforddiant am ddim i gael am 2026 - 2027.
Mae dewis o wahanol Modiwls. Bydd rhaid archebu lle i un o`r Cynghorwyr.
Annodd iawn ydyw cael gwirfoddolwr / wyr i fynychu. Er bod y Cyngor yn annog Cynghorwyr i fynd.

8. Un Llais Cymru - Wendi Patience.
NRAP newydd a rhestrau Adran 7.
Y Cyngor yn derbyn y Bioamrywiaeth (Un Llais Cymru)

9. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Newyddlen Cyllid Cyfleoedd Grant posibl. Cronfa Cymru Actif y Cyllid diweddaraf.
Y wybodaeth yn dderbyniol gan y Cyngor heb sylw pellach.

10. Un Llais Cymru - K Brown.
Mae Pwyllgor Ardal Ynys Mon yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Llangefni 22ain Ebrill 2026 am 6.30yh. Cyng. J E Lewis fydd yn cynrychioli y Cyngor.

11. Cafwyd ebost gan Mr James Thomas o Gymuned Bodffordd. Gyda pryder ynghylch materion yn y Pentref. Ci ymosodol. Plant ar Sgwters a Beisigls i lawr yr allt o pen Caer Delyn. Cyflwr yr eiddo i`r chwith o Capel Sardis. Parcio Lon Minffordd. Parcio ty allan Scotland Teras.
Yn gofyn i`r Cyngor y posibilrwydd i adolygu gweithred priodol.
Y Cyngor wedi trafod y defnydd a pasiwyd i`w anfon i`r Cyngor Sir am ymateb.

12. Anfonwyd Mantolen Ariannol 2025 /26 y Cyngor i`r Cynghorwyr gyda`r Rhaglen i`w treilio. Trwy gynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. R R Roberts pasiwyd i`w derbyn yn gywir a gofyn i Mr Alun Foulkes wneud gwaith yr Awdit Mewnol eto eleni.

RHODDION.

13. Cafwyd derbynneb gan Neuadd Goffa Bodwrog am arain tuag at atgyweirio £2,000.

PLWYFOL.

14. Mantolen Ariannol Neuadd Goffa Bodwrog 2025 / 26.
Y Cyngor yn cydnabod cael y fantolen gan y Neuadd. Nid oedd mwy o sylw. Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. Mrs L Roberts.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Cafwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Derbyniwyd gan y Cyngor gyda diolch.

MATERION ARIANNOL.

16. Cyfrif Rhedegol. £24,582.98.

Arian Mynwent Gymunedol Bodffordd £10,946.63 rhan o`r uchod)

TALIADAU:

17. Clerc £517.06. Les Maes Chwarae £25.00. Aelodaeth Un Llais Cymru £213.00. Anglesey Sign (Gwyndy) £1,066.80.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. G Jones.

D Owen (Clerc)